# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

**RHAN 6**

AMRYWIOL AC ATODOL

**52 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer–

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion neu ddosbarthau o achosion gwahanol, ardaloedd gwahanol neu at ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu'n ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodol neu'n unig mewn perthynas ag achosion neu ddosbarthau penodol o achos;

(c) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, darfodol, canlyniadol, trosiannol neu arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda ei gwneud.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwn neu orchymyn o dan adran 53(3)(b) yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Nid yw is-adran (3) yn gymwys i reoliadau a gorchmynion y mae is-adrannau (5) a (6) yn gymwys iddynt.

(5) Rhaid peidio â gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys (yn unigol neu ynghyd a darpariaeth arall)–

(a) gorchymyn o dan adran 49(4) neu adran 53(3)(a); neu

(b) rheoliadau o dan adran 7(6)(a), 23(1)(b), 23(2), 45 neu 46,

onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

(6) Rhaid peidio a gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys (yn unigol neu ynghyd â darpariaethau eraill) y rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o dan adran 18(1)(c) neu 18(8) onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 52 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 55(1)(2)**(a)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 52.